# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Siambr Hywel - Tŷ Hywel**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 24 Medi 2025

Amser y cyfarfod: 13.30

# 299 (v4)

Cynhelir y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr Hywel, Tŷ Hywel ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

## 1 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Ysgrifennydd Cabinet ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Ysgrifennydd Cabinet ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 3 Cwestiynau i Gomisiwn y Senedd

(10 munud)

Gweld y Cwestiynau

## 4 Cwestiynau Amserol

(0 munud)

Ni dderbyniwyd unrhyw Gwestiynau Amserol

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 5 Datganiadau 90 eiliad

(5 munud)

## 6 Dadl ar ddeiseb: P-06-1494 Llywodraeth Cymru i ddiogelu cyllid mewn addysg rhag toriadau Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol

(30 munud)

**NDM8982** Carolyn Thomas (Gogledd Cymru)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi'r ddeiseb 'P-06-1494 Llywodraeth Cymru i ddiogelu cyllid mewn addysg rhag toriadau Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol' a gasglodd 11,040 o lofnodion.

## 7 Dadl ar adroddiad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig: Deallusrwydd Artiffisial ac Economi Cymru: A all androidau Cymru freuddwydio am ddefaid trydan?

(30 munud)

**NDM8983** Andrew R.T. Davies (Canol De Cymru)

Cynnig bod y Senedd yn nodi:

Adroddiad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 'Deallusrwydd Artiffisial ac Economi Cymru: A all androidau Cymru freuddwydio am ddefaid trydan?', a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Mai 2025, ac y gosodwyd ymateb iddo gan Lywodraeth Cymru ar 16 Medi 2025.

## 8 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith: Craffu blynyddol: Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru 2024

(30 munud)

**NDM8986** Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith: Craffu blynyddol: Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru 2024, a osodwyd ar 24 Ebrill 2025.

Noder: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 16 Medi 2025. Ymatebodd Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru ar 8 Mai 2025.

## 9 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig – y GIG

(60 munud)

**NDM8984** Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn ailddatgan y dylai GIG Cymru barhau i fod am ddim yn y man darparu a chael ei ariannu ag arian cyhoeddus, ac na ddylai gael ei ddisodli gan system sy'n seiliedig ar yswiriant.

2. Yn gresynu, ers etholiad y Senedd 2021 a Chytundeb Cydweithio Llywodraeth Cymru â Phlaid Cymru:

a) bod dros 38,000 o bobl Cymru wedi marw tra'n aros am driniaeth y GIG; a

b) bod cyfanswm llwybrau cleifion wedi cynyddu tua traean.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i atal rhagor o farwolaethau diangen drwy:

a) datgan argyfwng iechyd i gyfeirio adnoddau a chyfarpar Llywodraeth Cymru tuag at dorri rhestrau aros y GIG;

b) gwarantu uchafswm o flwyddyn i aros am driniaethau;

c) cyflwyno gwarant o saith diwrnod o aros am apwyntiad meddyg teulu;

d) cynnal cynllun cynhwysfawr o recriwtio a chadw ar gyfer GIG Cymru;

e) adeiladu rhagor o ganolfannau llawfeddygol ac ehangu canolfannau diagnostig cyflym;

f) adfer dewis y claf o ran lle y gall gael mynediad at ofal iechyd; a

g) lansio cynllun gweithredu ar gyfer canser.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Dileu popeth ar ôl pwynt 1 a rhoi yn ei le:

Yn croesawu'r cyllid ychwanegol o £120 miliwn i ddileu'r holl amseroedd aros o ddwy flynedd a lleihau maint cyffredinol y rhestr aros erbyn diwedd mis Mawrth 2026.

Yn croesawu camau i atal mwy o farwolaethau canser drwy lansio rhaglen genedlaethol wedi'i thargedu ar gyfer sgrinio canser yr ysgyfaint yng Nghymru a chynyddu mynediad at y rhaglen sgrinio canser y coluddyn.

Yn nodi:

a) bod amseroedd aros hir o fwy na dwy flynedd am driniaeth bellach 88.6 y cant yn is na'r brig ym mis Mawrth 2022; ac

b) mai ychydig dros 21 wythnos yw'r amser aros cyfartalog am driniaeth.

**Os derbynnir gwelliant 1, caiff gwelliant 2 ei ddad-ddethol.**

**Gwelliant 2** Heledd Fychan (Canol De Cymru)

Dileu popeth ar ôl pwynt 1 a rhoi yn ei le:

Yn gresynu at:

a) polisïau llywodraethau olynol San Steffan sydd wedi agor y drws i breifateiddio yn y GIG, gan gynnwys y fenter cyllid preifat;

b) methiant Llywodraeth Geidwadol flaenorol y DU a Llywodraeth Lafur bresennol y DU i ddarparu setliad ariannu teg i Gymru sy'n adlewyrchu ei hanghenion iechyd a gofal cymdeithasol;

c) polisïau llymder Llywodraeth Geidwadol flaenorol y DU, a gyfrannodd yn uniongyrchol at farwolaethau ychwanegol yng Nghymru a chanlyniadau iechyd sy'n gwaethygu; a

d) y safonau dwbl gan Lywodraeth Geidwadol flaenorol y DU o ran cydymffurfio â rheoliadau COVID a erydodd ymddiriedaeth mewn mesurau iechyd y cyhoedd.

Yn gresynu ymhellach bod cyfanswm llwybrau cleifion wedi cynyddu tua thraean ers etholiad y Senedd yn 2021.

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i atal mwy o farwolaethau diangen drwy:

a) datgan argyfwng iechyd; a

b) gweithredu cynllun Plaid Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2025, i fynd i'r afael â rhestrau aros.

## 10 Cyfnod pleidleisio

## 11 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM8966** Mark Isherwood (Gogledd Cymru)

Sicrhau gofal hosbis yng Nghymru ar gyfer y dyfodol

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mawrth, 30 Medi 2025

# Cwestiynau Llafar a gyflwynwyd ar 17/09/2025 i'w hateb ar 24/09/2025

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

## YSGRIFENNYDD Y CABINET DROS DRAFNIDIAETH A GOGLEDD CYMRU

**Vaughan Gething** *De Caerdydd a Phenarth*

1 OQ63108 **(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Ysgrifennydd Cabinet wedi'u cael gydag Adran Drafnidiaeth Llywodraeth y DU a Network Rail ynghylch ail-alinio traciau i helpu i ddarparu gorsaf reilffordd Parcffordd Caerdydd?

**Adam Price** *Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr*

2 OQ63121 **(w)**

Pa gamau mae'r Llywodraeth yn eu cymryd i ddiogelu coridor rheilffordd Caerfyrddin–Aberystwyth rhag datblygiadau a allai danseilio’r posibilrwydd o’i hailagor yn y dyfodol?

**Joel James** *Canol De Cymru*

3 OQ63113 **(e)**

A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet ddatganiad ar ddarpariaeth cludiant o'r cartref i'r ysgol?

**Paul Davies** *Preseli Sir Benfro*

4 OQ63097 **(e)**

A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet ddatganiad ar brosiectau ffyrdd ym Mhreseli Sir Benfro?

**Jenny Rathbone** *Canol Caerdydd*

5 OQ63123 **(e)**

Sut y mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r diwydiant bysiau i ganfod prif achosion tagfeydd?

**Samuel Kurtz** *Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro*

6 OQ63114 **(e)**

Sut y mae Llywodraeth Cymru yn gwella seilwaith trafnidiaeth yng Ngorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro?

**John Griffiths** *Dwyrain Casnewydd*

7 OQ63130 **(e)**

Beth yw gwerthusiad diweddaraf Llywodraeth Cymru o effaith y polisi terfyn cyflymder diofyn o 20mya?

**Delyth Jewell** *Dwyrain De Cymru*

8 OQ63106 **(e)**

Sut y mae'r Llywodraeth yn cefnogi awdurdodau lleol i sicrhau na fydd gwasanaethau cludiant i ysgolion yn cael eu torri?

**Hannah Blythyn** *Delyn*

9 OQ63122 **(e)**

Sut y bydd y Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru) o fudd i'r gweithlu yng Nghymru?

**Mick Antoniw** *Pontypridd*

10 OQ63107 **(e)**

A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet roi diweddariad am gynnydd prosiect rheilffordd coridor gogledd-orllewin Caerdydd?

**Altaf Hussain** *Gorllewin De Cymru*

11 OQ63116 **(e)**

Sut y mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y rhwydwaith cefnffyrdd yn ddiogel i holl ddefnyddwyr y ffyrdd?

**Andrew R.T. Davies** *Canol De Cymru*

12 OQ63127 **(e)**

A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet amlinellu ei flaenoriaethau ar gyfer rhwydwaith trafnidiaeth Cymru ar gyfer gweddill y Senedd hon?

## YSGRIFENNYDD Y CABINET DROS GYFIAWNDER CYMDEITHASOL, Y TREFNYDD A’R PRIF CHWIP

**Peredur Owen Griffiths** *Dwyrain De Cymru*

1 OQ63133 **(e)**

Sut y mae'r Llywodraeth yn hyrwyddo cydlyniant cymunedol yn Nwyrain De Cymru?

**Russell George** *Sir Drefaldwyn*

2 OQ63104 **(e)**

Pa ofynion y mae Llywodraeth Cymru yn eu gosod ar awdurdodau lleol ynghylch darparu a chydgysylltu safleoedd ar gyfer Sipsiwn, Roma a Theithwyr?

**John Griffiths** *Dwyrain Casnewydd*

3 OQ63129 **(e)**

A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet roi diweddariad ar gamau Llywodraeth Cymru i wella'r ddarpariaeth safleoedd i Sipsiwn a Theithwyr?

**Mark Isherwood** *Gogledd Cymru*

4 OQ63100 **(e)**

Sut y mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi ffoaduriaid o Wcráin yng Nghymru?

**Paul Davies** *Preseli Sir Benfro*

5 OQ63099 **(e)**

Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i sicrhau cynaliadwyedd elusennau ym Mhreseli Sir Benfro?

**Buffy Williams** *Rhondda*

6 OQ63117 **(e)**

Pa gamau fydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gefnogi teuluoedd a phlant sy'n byw mewn tlodi yn y Rhondda dros fisoedd yr hydref a'r gaeaf?

**Tom Giffard** *Gorllewin De Cymru*

7 OQ63124 **(e)**

A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet roi diweddariad ar waith Llywodraeth Cymru o ran cydgysylltu ffoaduriaid, ymfudo a chydlyniant cymunedol?

**Mabon ap Gwynfor** *Dwyfor Meirionnydd*

8 OQ63125 **(w)**

A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet wneud datganiad am gyfraddau trais rhywiol yng Nghymru?

**Sam Rowlands** *Gogledd Cymru*

9 OQ63109 **(e)**

Sut y mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r gwaith y mae grwpiau ffydd yn ei wneud mewn cymunedau yng Nghymru?

**Alun Davies** *Blaenau Gwent*

10 OQ63119 **(e)**

A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet ddatganiad ar gefnogaeth Llywodraeth Cymru i bobl sy'n ceisio lloches rhag y rhyfel yn Wcráin?

**Natasha Asghar** *Dwyrain De Cymru*

11 OQ63110 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i fynd i'r afael â thrais domestig yn Nwyrain De Cymru?

**Hannah Blythyn** *Delyn*

12 OQ63131 **(e)**

A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet roi datganiad ar rôl gwirfoddolwyr mewn cymunedau ledled Cymru?

## COMISIWN Y SENEDD

**James Evans** *Brycheiniog a Sir Faesyfed*

1 OQ63128 **(e)**

A wnaiff y Comisiwn nodi costau Siambr newydd y Senedd a'r amserlenni disgwyliedig ar gyfer cwblhau'r gwaith?

**Hannah Blythyn** *Delyn*

2 OQ63132 **(e)**

A wnaiff y Comisiwn roi diweddariad ar y defnydd o AI o ran rheoli busnes y Senedd?